Centre of expertise on child sexual abuse

# Adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol mewn dulliau diogelu cymhleth

## Astudiaeth archwiliol

Medi 2021

Jasmin Tregidga
a Jo Lovett



csacentre.org.uk

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i reolwyr y timau diogelu cymhleth am eu holl gymorth wrth hwyluso'r ymchwil, ac i'r holl ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg, ac a gymerodd ran yn y cyfweliadau a'r grŵp ffocws. Hoffem hefyd ddiolch i Nick Marsh, a oedd yn gynghorydd gwella ymarfer yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon, am ei gefnogaeth â'r ymchwil.

## Am yr awduron

Mae Dr Jasmin Tregidga yn ymgynghorydd ymchwil annibynnol (yn gweithredu fel WestPoint Crime and Social Research), ar ôl bod yn gweithio cyn hynny fel darlithydd a chydymaith ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd ei phenodi'n gymrawd ymchwil er anrhydedd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae profiadau ymchwil a gwerthuso Jasmin yn ymwneud â chyfiawnder troseddol, erledigaeth dreisgar a gwaith partneriaeth amlasiantaeth, â phwyslais penodol ar gam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol.

Mae Jo Lovett yn uwch gymrawd ymchwil ac mae wedi bod yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso ym maes trais a cham-drin yn yr Uned Astudiaethau Cam-drin Menywod a Phlant ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain ers yr 20 mlynedd diwethaf. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys trais rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, trais domestig, cefnogaeth arbenigol i oroeswyr, a'r system cyfiawnder troseddol.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

# Crynodeb gweithredol

Mae diogelu cymhleth yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio dull o ymateb i weithgaredd troseddol (cyfundrefnol yn aml) neu ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddoldeb, yn ymwneud â phlant ac oedolion, lle mae pryderon ynglŷn â chamfanteisio a/neu bryderon ynglŷn â diogelu. Mae diogelu cymhleth yn aml yn cynnwys timau amlasiantaeth, yn yr un lleoliad, lle mae gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, gweithwyr iechyd ac ymarferwyr eraill, yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â mathau amrywiol o gamfanteisio – yn bennaf camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant. Mae'n mynd ymhellach na'r pwyslais traddodiadol ar blant iau a niwed mewn amgylchedd cartref i roi sylw i amgylchiadau ac anghenion penodol y glasoed a'u profiadau y tu hwnt i leoliad domestig.

Mae dulliau diogelu cymhleth yn ceisio mynd i'r afael â chyfyngiadau cydnabyddedig yn yr arferion diogelu presennol, cysylltu arbenigedd ar wahanol fathau o gamfanteisio, ac ymateb i risgiau a wynebir gan y grŵp oedran hŷn hwn, gan ehangu'r ystod o opsiynau i ymarferwyr ymgysylltu â'r glasoed a'u diogelu.

Er bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddisgrifio'n aml fel mater sy'n perthyn i gategori ehangach cam-drin plant yn rhywiol, dadleuir hefyd bod pob math o gam-drin plant yn rhywiol yn gyfystyr â chamfanteisio arnynt; mae rhai'n defnyddio'r ddau derm i olygu'r un peth. Mae'r astudiaeth ymchwil hon wedi canolbwyntio ar bob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan ystyried camfanteisio'n rhywiol ar blant fel math o gam-drin plant yn rhywiol a mabwysiadu diffiniadau cyfredol Llywodraeth y DU o'r ddau derm.

## Nodau'r ymchwil

Astudiaeth archwiliol fach oedd hon er mwyn codi cwestiynau a thaflu goleuni ar ymarfer o ran sut y gallai cam-drin plant yn rhywiol, yn ei holl ffurfiau, ymddangos yng ngwaith ymarferwyr diogelu cymhleth wrth gefnogi pobl ifanc. Ei nodau oedd:

- • dod i ddeall yn well sut mae cam-drin blaenorol a diweddar/parhaus, yn enwedig cam-drin plant yn rhywiol, yn cael ei ddisgrifio (neu ddim yn cael ei ddisgrifio) gan weithwyr proffesiynol mewn timau diogelu cymhleth, a chofnodi barn ymarferwyr ynglŷn â sut y gallai'r mathau hyn o gam-drin ymddangos yn llwyth achosion timau diogelu cymhleth ac ymatebion ymarfer dilynol
- archwilio'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol mewn tîm diogelu cymhleth i drafod materion a allai fod yn achosion o gam-drin plant yn rhywiol
- cefnogi datblygiad pellach gwybodaeth ymarferwyr am bwysigrwydd deall, cofnodi ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ym maes diogelu cymhleth, a rhannu negeseuon allweddol â rhanddeiliaid ehangach.

Roedd yr astudiaeth yn ceisio darparu gwybodaeth fel sail i ymarfer a chyfrannu tuag at gorff o wybodaeth sy'n datblygu ynglŷn â diogelu cymhleth, sy'n dal i ddatblygu fel dull gweithredu.

# Dull ymchwil

Yn wreiddiol roedd yr astudiaeth i fod i gynnwys dadansoddiad agos o ffeiliau achos diogelu cymhleth mewn ardal astudiaeth achos yn Lloegr, er mwyn canfod maint y pryder ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol a chanfod sut roedd cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ddeall a'i gofnodi mewn ffeiliau achos. Oherwydd y cyfyngiadau a orfodwyd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i bandemig COVID-19, fodd bynnag, nid oedd modd gwneud y gwaith ffeiliau achos ar safle.

O ganlyniad, mae tîm y prosiect wedi ailgynllunio'r astudiaeth drwy newid nodau a chwestiynau'r ymchwil, a datblygu dulliau ar-lein amgen o gasglu data a oedd yn cynnwys:

- chwe chyfweliad lled-strwythuredig gydag aelodau o un tîm diogelu cymhleth yn ardal yr astudiaeth achos
- grŵp ffocws â phedwar gweithiwr cymdeithasol yn yr un tîm
- arolwg ar-lein byr wedi'i gwblhau gan 64 ymarferydd arall mewn timau diogelu cymhleth ledled ardal yr astudiaeth achos.
-

# Y prif faterion sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil

## Deall cam-drin plant yn rhywiol mewn cysylltiad â dulliau diogelu cymhleth

Mae diffiniadau a dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn hollbwysig ar gyfer gwaith diogelu cymhleth, ac mae'r iaith a ddefnyddir yn y cyd-destun hwn yn bwysig. Mae diffiniadau'n bwysig oherwydd eu bod yn pennu pa achosion sy'n cael eu cyfeirio ac yn cael eu derbyn gan dimau diogelu cymhleth, ac oherwydd y gallai unrhyw gamddealltwriaeth neu gamddefnyddio termau olygu bod cam-drin plant yn rhywiol mewn rhai cyd-destunau'n cael ei guddio neu ei fethu.

Mae dulliau diogelu cymhleth wedi ceisio dod â gwahanol feysydd gwaith yn ymwneud â mynd i'r afael â chamfanteisio at ei gilydd – meysydd yr ymdrinnid â hwy ar wahân cyn hyn. Cyfeirir achosion cymhleth iawn yn ymwneud â phobl ifanc sy'n cael eu targedu ac sy'n cael niwed difrifol o ganlyniad i gamfanteisio troseddol a/neu rywiol at dimau diogelu cymhleth, sy'n gweithio drwy ddulliau dwys i'w diogelu. Mae'r niwed a wynebir gan y bobl ifanc yn digwydd yn bennaf, ond nid bob amser, y tu allan i'r teulu.

Yn y cyfweliadau, roedd ymarferwyr diogelu cymhleth yn aml yn defnyddio iaith benodol a rheolaidd i ddiffinio termau allweddol megis cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid oedd hyn bob amser yn gyson â diffiniadau Llywodraeth y DU, nad ydynt ynghlwm wrth gyd-destunau oddi mewn nac oddi allan i'r teulu; roedd ymarferwyr yn aml yn cyfeirio at gam-drin plant yn rhywiol fel mater 'o fewn teulu', a chamfanteisio'n rhywiol ar blant fel mater 'y tu allan i deulu' ac yn cynnwys meithrin perthynas amhriodol.

Roedd yr iaith a ddefnyddid gan ymarferwyr i ddisgrifio diogelu cymhleth yn debyg i'r iaith a ddefnyddid i wahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a chyfeirid yn aml at waith amddiffyn 'traddodiadol' ar gyfer y cyntaf a gwaith 'arbenigol' ar gyfer yr olaf.

### Adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Yn ardal yr astudiaeth achos, roedd cynrychiolwyr yr heddlu a gwaith cymdeithasol a gymerodd ran yn yr ymchwil yn glir ynglŷn â ffiniau eu rôl a chyfeiriasant at eu blaenoriaethau cyffredin (diogelu) a'u gwaith gweithredol sydd o reidrwydd ar wahân.

Roedd rôl tystiolaeth, ac yn fwyaf arbennig y pwyslais a roddid ar ddatgeliad dioddefwyr, yn thema glir a oedd yn dod i'r amlwg. Mewn rhai achosion, byddai gallu darparu 'tystiolaeth' o bryder ymarferydd ynglŷn â datgeliad dioddefwr neu fath arall o dystiolaeth (er enghraifft, deunydd fforensig, deunydd CCTV neu dystion) yn aml yn cadarnhau penderfyniadau i wynebu'r cam-drin.

O ran cofnodi pryder ynglŷn â cham-drin plentyn yn rhywiol, dangosodd canfyddiadau arolwg fod ymarferwyr diogelu cymhleth bron mor debygol o gofnodi eu pryderon mewn achosion lle nad oedd datgeliad geiriol ag yr oeddent mewn achosion lle roedd datgeliad geiriol wedi bod. Fodd bynnag, roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn y grŵp ffocws ac mewn cyfweliadau yn ymwybodol bod posibilrwydd y gallai pobl ifanc neu eu teuluoedd ofyn am gael gweld eu ffeiliau; o ganlyniad, nid oedd ganddynt lawer o hyder i gofnodi pryderon proffesiynol ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol na ellid eu cefnogi â digon o dystiolaeth neu 'ffeithiau'. Mae'r materion hyn yn cael eu nodi'n rheolaidd mewn astudiaethau rhanbarthol a chenedlaethol o'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

## Y goblygiadau o safbwynt ymarfer

Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at nifer o oblygiadau posibl o safbwynt ymarfer. Mae'r awduron yn gobeithio y bydd yn ysgogi trafodaeth fyfyriol a fydd yn sail i ddatblygiadau parhaus wrth adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn ei holl ffurfiau, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, yng nghyd-destun diogelu cymhleth. Mae diogelu cymhleth yn dal yn faes gwaith sy'n datblygu; mae angen mwy o ymchwil er mwyn ei ddeall yn well, a gwerthuso sut y mae dulliau diogelu cymhleth yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn
**www.csacentre.org.uk/our-research/responding-to-csa/**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

22673shc21